

Cerrig yr Orsedd 1922 ac 1990

Gan Eirian Wyn Conlon

Cylch cyfrin, cyfriniol coediog
Dirgelwch derwyddol Delyn
Symbol syml o falchder cenedl.
Eisteddfod y ffin,
Gorymdaith yr iaith
Yn wyneb haul, llygad goleuni –
Dathlu'n diwylliant
Cyhoeddi Cymreictod
A Bryn y Beili'n binacl -
Calon ein cenedl am ddiwrnod.

Mileniwm newydd -
Llygedyn o obaith
Bod Bryn y Beili'n dal
I ddathlu'n diwylliant,
Arddangos yr iaith,
Sefyll yn y bwlch,
Cynnal Cymreictod cymuned
Yn dreftadaeth dragwyddol,
Gwarchod glendid Garmon
I'r oesoedd a ddel.

The Gorsedd Stones 1922 and 1990

A sylvan, cryptic, mystical circle
Delyn's druidic mystery
Simple symbol of a nation's pride.
The border Eisteddfod,
Procession the language
Facing the sun, in the eye of its light
Celebrating our culture
Proclaiming our Welshness
With Bailey Hill the pinnacle
And heart of our nation for one day.

A new Millenium –
A glimmer of hope
That Bailey Hill will still
Celebrate our culture,
Showcase the language,
Stand in the breach,
Preserve the Welshness of our community
As an eternal heritage,
Protecting Garmon's legacy
For the future ages.